## Eisiau rhannu eich profiad o reolydd?

## Dilynwch ein *tri* cham

**1**

**Meddyliwch am y profiad yr hoffech ei rannu**

**2**

**Rhannwch eich profiad**

**3**

**Byddwn yn rhoi gwybod i chi sut ydym wedi ei ddefnyddio**

### Beth allwch ei ddisgwyl gennym ni

Mae rhannu eich profiadau o reolydd yn bwysig am ei fod yn eu helpu i ddysgu a gwella ac yn ein helpu ni i sicrhau bod y safonau uchaf ar waith.

Gall edrych yn ôl ar eich gofal iechyd neu gymdeithasol eich hun, neu rywun agos atoch, fod yn broses emosiynol. Rydym yn deall hyn, ac yn sensitif o ran sut fyddwn ni'n delio â'r adborth a dderbyniwn, gan ei drin fel pwysig a chyfrinachol.

Sylwer nad ydym yn gorff cwynion, felly os oes gennych chi gwyn ynghylch gweithiwr iechyd neu ofal, neu ynglŷn â'i reolydd, ac yr hoffech ei ddatrys, dylech gysylltu yn uniongyrchol â'r rheolydd. Gweler ein cyfeiriadur yn: chwilio am reolydd

Gweler ein canllaw Iechyd a Gofal i'ch helpu i benderfynu pwy i gysylltu â nhw.

professional standards authority

# Sut i rannu profiad o reolydd



professional standards





## Amdanom ni

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yma i ddiogelu'r cyhoedd trwy sicrhau bod rheolyddion gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio i safonau uchel.

Rydym yn asesu pa mor dda mae'r rheolyddion yn diogelu'r cyhoedd. Mae eich profiadau yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o pa mor dda maent yn gwneud hyn. Y rheolyddion a oruchwylir gennym yw:-

- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon.

Mae'r daflen hon yn esbonio sut i rannu eich profiad – mewn *tri* cham.

Beth ydyn ni'n ei wneud gyda'ch adborth

Fe edrychir ar bob darn o wybodaeth a dderbyniwn yn unigol. Byddwn yn defnyddio'r holl adborth i'n helpu i greu darlun o pa mor dda mae'r rheolyddion yn diogelu'r cyhoedd. Mae'n ein galluogi i gydnabod themâu, cryfderau a gwendidau ac i argymell newidiadau. Yna byddwn yn cyflwyno ein hadroddiad i'r Senedd, yn ei rannu gyda'r rheolyddion, ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan.

## Profiad yr hoffech ei rannu

Rydym yn croesawu unrhyw brofiad yr hoffech chi ei rannu ynghylch rheolydd. Gall unrhyw un gysylltu â ni a rhannu eu profiad. Mae hyn yn cynnwys y cyhoedd, cofrestryddion, cyflogwyr, sefydliadau megis colegau hyfforddi a gweithwyr iechyd eraill.

Pam rhannu eich profiad?

Trwy rannu eich profiad gyda ni, byddwch yn ein helpu i helpu'r rheolyddion i ddysgu a gwneud gwelliannau. Byddwch yn helpu amddiffyn y cyhoedd a hyrwyddo hyder mewn gweithwyr iechyd a gofal.

Mathau o brofiadau

Mae'r mathau o brofiadau yr hoffem gael gwybod amdanynt yn cynnwys:

- Addysg a hyfforddiant
- Diogelu data
- Delio â chwynion
- Gwasanaeth cwsmeriaid
- Cefnogaeth ar gyfer cofrestryddion
- Proses ddisgyblu.

Mae'r mathau o brofiadau na allwn ddefnyddio yn cynnwys:

- Gwybodaeth am weithiwr iechyd a gofal
- Gwybodaeth am reolydd nad ydym yn ei oruchwylio.

## Cam 2: Rhannu eich profiad

Gallwch un ai:-

**Defnyddiwch ein ffurflen ar-lein**

**Ffoniwch ni:**
ar 020 7389 8030 a siarad gyda'n tîm craffu.

**Anfonwch e-bost atom:**
share@professionalstandards.org.uk

**Ysgrifennwch atom:**
Professional Standards Authority
157–197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

## Cam 3: Byddwn yn eich hysbysu

1. Byddwn yn cydnabod eich adborth o fewn pum niwrnod gwaith.
2. Weithiau, byddwn yn cysylltu â chi i gael rhagor o fanylion ynghylch eich profiad – ond dim ond os byddwch wedi rhoi caniatâd i ni wneud hyn.
3. Byddwn yn rhoi gwybod i chi sut ydym wedi ei ddefnyddio.